

Darpariaeth Barhaus Enghreifftiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen
Maes - Chwarae Byd Bach (Blwyddyn 1 a 2)

Cyfleoedd Dysgu Allweddol:

DM Datblygu eu hiaith fathemategol ar draws yr ystod, a'i defnyddio yn eu chwarae rôl ac wrth gyfathrebu/siarad ag oedolion am eu gwaith
DM Datblygu amrywiaeth o ymagweddau a strategaethau mathemategol
ILIC Adeiladu ar brofiad blaenorol, siarad yn hyderus a mynegi eu hunain yn glir. Cysylltu eu cyfraniadau mewn trafodaethau â'r hyn sydd eisoes wedi digwydd drwy ystyried safbwyntiau tebyg/gwahanol, a defnyddio confensiynau trafod a sgwrsio
ILIC/DIG Defnyddio iaith briodol wrth chwarae ac wrth gyfleu ystyr
ILLC/DIG Gwrando ar gyfarwyddiadau a'u cyflawni
ILLC/DIG Gwrando ac ymateb yn briodol ac yn effeithiol
ILIC Cymryd rôl, a defnyddio symud, ystumiau a llefaru'n fwriadol gan ddefnyddio iaith sy'n addas i'r rôl a'r sefyllfa
ILLC/DIG: Deall bod gan symbolau ysgrifenedig sain ac ystyr.

DPChLIAD Bod yn ymwybodol o'u teimladau eu hunain a datblygu'r gallu i fynegi eu hunain mewn ffordd briodol. (C)
DPChLIAD Dangos cywreinrwydd a datblygu agwedd gadarnhaol at brofiadau newydd a dysgu.
DPChLIAD Dod yn feddylwyr annibynnol, canolbwyntio am gyfnodau hwy/deall rolau gwahanol pobl/ymateb i syniadau a chwestiynau'n frwdfrydig.
DPChLIAD Teimlo'n hyderus i chwarae a gweithio'n gydweithredol
DPChLIAD Gwerthfawrogi ffrindiau a dangos gofal ac ystyriaeth am eraill
DPChLIAD Deall rheolau a disgwyliadau a gwybod beth sy'n deg ac annheg
GaD Defnyddio ac ymgyfarwyddo â geiriau ac ymadroddion cyffredin
GaD Gwrando ar syniadau pobl eraill.
GaD Meddwl am beth allai ddigwydd petai ...
GaD Gweld cymariaethau a nodi cyffelybiaethau a gwahaniaethau
DG Archwilio ac arbrofi ag amrywiaeth o dechnegau a deunyddiau
DG Gwneud dewisiadau wrth ddewis deunyddiau ac adnoddau

Adnoddau Parhaol

- Ffigyrau bach sy'n cynrychioli amrywiaeth o oedrannau/ethnigrwydd
- Tŷ dol a'r ategolion
- Fferm, tractorau, anifeiliaid
- Garej, ceir, mapiau, trenau, trac, cludiant amrywiol
- Castell a'r ategolion
- Mân-filod, anifeiliaid, coed
- Dinosoriaid
- Adnoddau electronig - robotiaid, adnoddau rheoli o bell etc
- Tuff-spot, amlinellau tirweddau addas (o dan ysgogiad y plant etc)
- Deunyddiau naturiol - cerigos, dail, conau, brigau, llaid etc
- Deunyddiau ysgrifennu, tâp masgio, sisyrnau etc
- Posteri, lluniau, ffuglen, ffeithiol

D.S. Mewn chwarae byd bach, mae'n rhaid i blant gael cyfle i ymchwilio'r amgylchedd dysgu dan do ac awyr agored, gan gynnwys amodau naturiol wrth iddynt godi, ac archwilio amrywiaeth eang o ysgogiadau.

Profiadau a Fwriedir

- Siarad - cynnal sgwrs
- Gofyn cwestiynau
- Gwrando
- Chwarae rolau
- Gwneud lleisiau
- Ailddweud/llunio storïau a digwyddiadau
- Darllen
- Didoli a threfnu
- Dyfeisio'n ddifyfyr, arbrofi, ymchwilio
- Cynllun, dylunio a gwneud
- Rhannu
- Didoli ac amcangyfrif
- Dethol
- Cymharu
- Trefnu

Geirfa Briodol

- Enwau'r canlynol: adeiladau, cludiant, tirnodau/tirweddau, anifeiliaid, dinosoriaid, galwedigaethau, rolau'r teulu, siapiau

Geiriau allweddol ***e.e.***

- Adeiladu/adeilad/dylunio/ gwneud/cyfuno
- Tal/byr/hir/llydan/dwfn, yn dalach na, yn fyrrach na etc
- Llithro, rholio, troi, troelli, gwthio, tynnu
- Ymlaen, gwrthdroi/o chwith, am yn ôl, uchel, isel, araf
- Gyrru, teithio, symud, llywio, hedfan
- Cywiro, trwsio, atgyweirio ***etc***

Cwestiynau

- Ble (lleoliad)…..? Lle (arddodiadol)...? Pam …? Pryd/Pan..?
- Fedrwch chi ddweud wrthyf beth byddai'n digwydd petai ...?
- Dywedwch wrtha i sut…?
- Ydych chi'n meddwl…?
- Beth fydd yn digwydd nesaf tybed?
- Pwy/p'un/beth yw eich hoff…?
- Sut ydych chi'n teimlo…? Beth mae .... yn teimlo fel?
- Sawl…? Faint…?